# DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### *Adran 29(1) – Cyfarwyddydau mewn perthynas â gweithgareddau cyfyngedig*

64. O dan adran 29(1) caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod sy'n uno i beidio â chynnal "gweithgaredd cyfyngedig" heb naill ai ystyried barn, neu gael cydsyniad ysgrifenedig, person a bennir yn y cyfarwyddyd. Y personau y caniateir eu pennu yw unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol. Gall hyn gynnwys Gweinidogion Cymru eu hunain, pwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol (adran 30(3)).

65. Mae adran 29(2) yn disgrifio'r gweithgareddau cyfyngedig y gellir dyroddi cyfarwyddyd barn/cydsynio yn eu cylch:

- gwerthu neu brynu tir, buddiannau mewn tir, neu ganiatáu opsiwn i brynu tir neu fuddiannau mewn tir (trothwy – dros £150,000);
- ymrwymo i gontractau neu gytundebau sy'n ymestyn am gyfnod y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu y gellid eu hymestyn felly (trothwy – dros £500,000 os yw'n gontract cyfalaf; £150,000 ar gyfer pob contract arall);
- gwneud caffaeliadau penodol o gyfalaf cyfrannau neu fenthyciad (trothwy – dros £500,000);
- rhoi grant neu gymorth ariannol arall (trothwy – dros £150,000);
- gwneud benthyciad sy'n ymestyn am gyfnod y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo, neu y gellid ei ymestyn felly (trothwy – dros £150,000);
- cynnwys swm o gronfeydd ariannol wrth gefn wrth gyfrifo ei gyllideb;
- dechrau'r broses o recriwtio prif swyddog neu ddirprwy brif swyddog anstatudol.

66. Diffinnir "contract neu gytundeb perthnasol" fel un sy'n cynnwys cytundeb fframwaith o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (O.S. 2006/5); ac mae contract cyfalaf yn un y mae'r gydnabyddiaeth sy'n daladwy gan yr awdurdod mewn perthynas â'r contract yn wariant cyfalaf at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol 2003 (adran 34(3) a (4)).

67. Er bod adran 34 yn nodi'r trothwyon isaf y caiff Gweinidogion Cymru dyroddi cyfarwyddydau mewn perthynas â gweithgareddau cyfyngedig ar ôl eu croesi, bydd unrhyw gyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn pennu'r trothwy gwirioneddol; gallai hwn fod yn wahanol i'r trothwy isaf. Mae adran 35 yn nodi sut i benderfynu a yw'r trothwyon ariannol wedi eu croesi. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r trothwyon presennol.

68. Mae adran 29(5) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno ddarparu manylion gweithgaredd cyfyngedig i'r person a bennir mewn cyfarwyddyd, ac mae adran 29(6) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno gyhoeddi ei resymau dros benderfynu bwrw ymlaen â gweithgaredd cyfyngedig pan fo'r person a bennir mewn cyfarwyddyd wedi mynegi'r farn na fyddai'n briodol i'r awdurdod sy'n uno wneud hynny.

69. Mae adran 30(2) yn galluogi cyfarwyddydau o dan adran 29(1) i gael eu dyroddi mewn perthynas ag un awdurdod sy’n uno, dau neu ragor o awdurdodau penodedig, neu awdurdodau o ddisgrifiad penodedig. Yn yr un modd, mae adran 30(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu bod gwahanol bersonau i fynegi barn/cydsynio mewn perthynas â materion gwahanol neu mewn perthynas â gwahanol awdurdodau sy’n uno neu wahanol ddisgrifiadau o awdurdodau. Gall cyfarwyddydau hefyd ddarparu gwahanol ofynion mewn perthynas â’r un gweithgareddau cyfyngedig o werthoedd gwahanol; er enghraifft, efallai y bydd angen cydsyniad awdurdod cysgodol i brynu tir sy’n is ei werth, ond mae’n bosibl y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer pryniannau gwerth uwch.

70. O ran cronfeydd ariannol wrth gefn, mae adran 31 yn caniatáu i gyfarwyddyd a ddyroddir o dan adran 29(1) gynnwys cronfeydd ariannol wrth gefn o ddisgrifiadau penodol, neu gronfeydd ariannol wrth gefn hyd at drothwy penodedig, wrth gyfrifo’r swm gofynnol yn y gyllideb heb fod angen barn/cydsyniad person penodedig. Bwriad hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i reoli’r defnydd priodol o gronfeydd ariannol wrth gefn, ond heb fynd mor bell â rhwystro awdurdodau sy’n uno rhag defnyddio eu harian.

71. Nodir canlyniadau methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddwyd mewn perthynas â gweithgaredd cyfyngedig yn adran 33. Bernir na fydd modd gorfodi contract neu gytundeb yr aed iddo; bydd trafodiad tir neu gaffaeliad cyfalaf yn ddi-rym; bydd rhaid ad-dalu unrhyw grant neu gymorth ariannol arall, neu fenthyciad perthnasol; a chaiff y defnydd o gronfeydd ariannol wrth gefn heb ei awdurdodi wrth bennu gofyniad yn y gyllideb ei drin fel pe na bai’r cyfrifiad wedi ei wneud, gan rwystro’r awdurdod sy’n uno rhag pennu a chasglu ei dreth gyngor.